Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru

Cylch Gorchwyl

Yn weithredol tan 31 Rhagfyr 2027

1. **Statws, cylch gwaith a diben**

Mae Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru (y Comisiwn) yn banel cynghori annibynnol, anstatudol a sefydlwyd i roi cyngor diduedd, strategol sy'n edrych tuag ymlaen i Weinidogion Cymru ar anghenion seilwaith economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol hirdymor Cymru. Gall ei waith ystyried terfynlin o hyd at 80 mlynedd ac mae hefyd yn rhoi cyngor â therfyn amser y gofynnir amdano drwy lythyr cylch gwaith gweinidogol. Dylai unrhyw gyngor ar feddwl yn yr hirdymor gael ei lunio gydag argymhellion ar gyfer gweithredu i Weinidogion Cymru yn y byrdymor i'r tymor canolig.

Bydd y Comisiwn yn nodi problemau hirdymor allweddol o ran seilwaith, yn asesu tystiolaeth ac yn gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru. Dylai ystyriaethau o ran natur a hinsawdd, gwydnwch, cydraddoldeb, cynhwysiant, y Gymraeg, creu lleoedd a gwerth cyhoeddus yn yr hirdymor lywio ei waith.

Gall y Comisiwn archwilio seilwaith datganoledig, trawsffiniol a heb ei ddatganoli pan fo hyn yn berthnasol i Gymru, gan wahaniaethu'n glir rhwng cyfrifoldebau a'r ysgogwyr sydd ar gael. Dylai ystyried materion cyflawni trawsbynciol megis llywodraethu, cyllid, costau, sgiliau, cydsynio a chyflawni rhaglenni pan fo'r rhain yn effeithio ar ganlyniadau seilwaith mewn ffordd berthnasol.

Ni ddylai'r Comisiwn ddiystyru prosesau statudol, penderfynu ar geisiadau unigol nac ailagor fel mater o reol benderfyniadau sydd eisoes wedi'u gwneud neu sydd ar fin cael eu gwneud.

2. **Y cyd-destun deddfwriaethol a pholisi**

Rhaid i'r Comisiwn gynnal ei waith yn gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Wrth ddatblygu cyngor, dylai ystyried, lle y bo'n berthnasol, ddyletswyddau Gweinidogion Cymru a pholisi Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â'r amgylchedd, bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau, cydraddoldeb, y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, y Gymraeg, diogelu data a llywodraethu gwybodaeth.

Dylai'r Comisiwn ystyried strategaethau cenedlaethol perthnasol, cynlluniau a thystiolaeth, gan gynnwys Cymru'r Dyfodol, y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, Tueddiadau'r

Dyfodol a'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, ynghyd â gwaith a gynhyrchwyd gan gyrff cyhoeddus, rheoleiddwyr, y byd academaidd, sefydliadau proffesiynol, diwydiant, cymunedau a'r trydydd sector.

3. Annibyniaeth a pherthynas â Llywodraeth Cymru

Gweinidogion Cymru sy'n gosod cylch gwaith y Comisiwn ac yn cadw'r cyfrifoldeb am bolisïau, penderfyniadau cyllido a gweithredu. Mae'r Comisiwn yn pennu ei fethodolegau, ei dystiolaeth, ei gasgliadau, ei argymhellion a'i ddatganiadau cyhoeddus o fewn y cylch gwaith y cytunwyd arno.

Gall y Comisiwn gydweithio â swyddogion i ddatblygu tystiolaeth a phrofi opsiynau, ond ni ddylai gweithio ar y cyd beryglu annibyniaeth y Comisiwn na chreu amwysedd ynghylch atebolrwydd. Pan fo'r Comisiwn a Llywodraeth Cymru yn dod i gasgliadau gwahanol, caiff y Comisiwn gyhoeddi ei safbwynt ei hun a'r dystiolaeth sy'n ei gefnogi.

Rhaid i'r Comisiwn reoli achosion gwirioneddol, posibl a chanfyddedig o wrthdaro buddiannau yn unol â'i drefniadau llywodraethu.

4. Aelodaeth

Bydd y Comisiwn yn cynnwys Cadeirydd a Chomisiynwyr a benodir gan Weinidogion Cymru. Pennir y nifer, y cyfnod mewn swydd, y gydnabyddiaeth a thelerau penodi eraill drwy'r trefniadau perthnasol ar gyfer penodiadau cyhoeddus neu estyn penodiadau. Bydd y penodiadau presennol yn rhedeg tan 31 Rhagfyr 2027 oni fyddant yn dod i ben yn gynharach yn unol â'u telerau.

5. Cyfrifoldebau Comisiynwyr

Bydd Comisiynwyr y Comisiwn yn:

- rhoi cyngor arbenigol, diduedd a chyfun i Weinidogion Cymru;
- sicrhau bod tystiolaeth a gwaith dadansoddi sy'n cefnogi cyngor y Comisiwn yn gadarn, yn dryloyw a'i fod wedi cael sicrwydd priodol o ran ansawdd;
- llunio a goruchwylio astudiaethau, ymchwil a gomisiynwyd a gweithgarwch ymgysylltu;
- ymgysylltu'n adeiladol â'r llywodraeth, diwydiant, rheoleiddwyr, llywodraeth leol, y byd academaidd, cyrff proffesiynol, cymunedau a'r cyhoedd;
- bodloni gofynion llywodraethu ar y cyd, cyfrinachedd, ymdrin â gwybodaeth a gwrthdaro buddiannau;
- helpu'r Cadeirydd i gynrychioli'r Comisiwn yn gyhoeddus, yn enwedig mewn meysydd sy'n berthnasol i'w harbenigedd.

6. Cyfrifoldebau'r Cadeirydd

Yn ogystal â'i gyfrifoldebau fel comisiynydd, cyfrifoldebau penodol y Cadeirydd yw:

- rhoi arweinyddiaeth strategol a diogelu annibyniaeth ac ansawdd cyngor y Comisiwn;
- pennu blaenoriaethau ar y cyd â'r Comisiynwyr a goruchwylio'r broses o gyflawni'r cylch gwaith, y rhaglen waith a'r gyllideb;
- cyfarwyddo a chydgysylltu cyfraniadau'r Comisiynwyr, gan wneud defnydd effeithiol o'u harbenigedd;
- creu consensws gan sicrhau yr ymdrinnir yn dryloyw ag achosion perthnasol o wahaniaeth barn;
- cynnal cydberthnasau effeithiol â Gweinidogion Cymru, swyddogion Llywodraeth Cymru a phartneriaid allanol;
- cynrychioli'r Comisiwn yn gyhoeddus a sicrhau bod deunyddiau cyfathrebu yn gwahaniaethu'n gywir rhwng cyngor y Comisiwn a pholisi Llywodraeth Cymru;
- gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau cymorth cymesur ar gyfer rhaglenni, gwaith dadansoddi a chomisiynu.

7. Rhaglen waith ac allbynnau

Bydd y Comisiwn yn paratoi:

- adroddiad blynyddol sy'n ymdrin â llywodraethu, gweithgarwch, gwariant lle y bo'n briodol, cynnydd yn erbyn y cylch gwaith a'r flaenraglen waith;
- adroddiadau, papurau tystiolaeth, nodiadau cyngor ac allbynnau eraill sy'n ofynnol drwy'r llythyr cylch gwaith gweinidogol;
- cyngor achlysurol ar faterion seilwaith o fewn ei gylch gwaith;
- gwaith monitro cynnydd ar argymhellion a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru, lle y bo hynny'n gymesur a lle y cytunir arnynt.

Dylai'r Comisiwn gyhoeddi ei ymchwil a'i gyngor mewn fformatau hygyrch lle y bo modd. Dylai allbynnau wahaniaethu rhwng tystiolaeth, gwaith dadansoddi, rhagdybiaethau ac argymhellion; nodi ansicrwydd a chyfaddawdau; ystyried prosesau cyflawni a fforddiadwyedd cyffredinol; ac osgoi manwl gywirdeb heb ei gefnogi mewn amcangyfrifon cost hirdymor.

8. Ymgysylltu a thryloywder

Dylai'r Comisiwn weithio'n agored, yn dryloyw ac yn gydweithredol a dylai geisio amrywiaeth eang o safbwyntiau. Dylai gweithgarwch ymgysylltu fod yn gymesur, yn gynhwysol, yn hygyrch ac yn briodol o ran cymhlethdod technegol ac effaith gymunedol y pwnc.

Dylai'r Comisiwn esbonio sut mae gweithgarwch ymgysylltu wedi dylanwadu ar ei waith dadansoddi a'i argymhellion.

Rhaid ymdrin â gwybodaeth fasnachol sensitif, gwybodaeth bersonol, gwybodaeth sensitif i ddiogelwch a gwybodaeth gyfreithiol freintiedig yn unol â'r gofynion cymwys.

9. Cymorth ac ymateb Llywodraeth Cymru

Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi annibyniaeth y Comisiwn drwy ddarparu swyddogaeth nawdd a Swyddfa Rhaglen briodol, hwyluso mynediad at swyddogion a thystiolaeth berthnasol, ac ystyried anghenion comisiynu rhesymol o fewn cyllidebau a rheolaethau y cytunwyd arnynt.

Dylai Llywodraeth Cymru ymateb yn ffurfiol i adroddiadau o sylwedd gan y Comisiwn, gan nodi a yw argymhellion wedi'u derbyn, wedi'u gwrthod neu a oes angen ystyriaeth bellach, gan roi rhesymau lle mae'n anghytuno. Dylid cyhoeddi ymatebion cyn gynted â phosibl, fel arfer o fewn chwe mis a dim hwyrach na deuddeg mis, oni chytunwyd ar amserlen amgen gydag esboniad.

10. Adnoddau a rheolaeth ariannol

Mae'r Comisiwn yn atebol i Weinidogion Cymru am ei ddefnydd o gyllid cyhoeddus a rhaid iddo weithredu o fewn cyllidebau, dirprwyaethau a rheolaethau ariannol a chaffael cymeradwy Llywodraeth Cymru.

Mae'r Comisiynwyr yn pennu cyfeiriad deallusol y gwaith ac yn cymeradwyo casgliadau'r Comisiwn; gall contractwyr a Swyddfa'r Rhaglen ddarparu tystiolaeth, drafftio, ymgysylltu a chymorth i'r rhaglen.

Nid oes unrhyw ymrwymiad mewn llythyr cylch gwaith na rhaglen waith yn gyfystyr â chymeradwyaeth ar gyfer gwariant y tu hwnt i gyllidebau y cytunwyd arnynt. Rhaid i ofynion ychwanegol gael eu hawdurdodi ar wahân.

11. Atebolrwydd a chraffu

Mae'r Comisiwn yn atebol i Weinidogion Cymru am ansawdd, perthnasedd a chywirdeb ei gyngor, ei drefniadau llywodraethu a'i ddefnydd o adnoddau cyhoeddus. Gall y Senedd graffu ar y Comisiwn a dylai fod ar gael i bwyllgorau perthnasol i drafod ei adroddiadau a'i waith dadansoddi ategol. Mae Gweinidogion Cymru yn parhau i fod yn atebol i'r Senedd am y cylch gwaith a roddwyd i'r Comisiwn ac am benderfyniadau ar ei argymhellion.

12. Adolygu a diwygio

Mae’r Cylch Gorchwyl hwn yn gymwys tan 31 Rhagfyr 2027 oni chaiff ei ddiwygio neu ei ddisodli’n gynharach. Dylai Llywodraeth Cymru a’r Comisiwn adolygu’r ffordd y mae’n gweithredu ar ddiwedd cyfnod cychwynnol Ionawr 2027 ac fel rhan o unrhyw adolygiad ehangach o statws, cylch gwaith a llywodraethu’r Comisiwn yn y dyfodol. Bydd angen cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a’r Comisiwn ar gyfer diwygiadau, yn amodol ar awdurdod Gweinidogion Cymru i bennu’r cylch gwaith a phenodiadau cyhoeddus.